

lesu yn fyw! Yr atgyfodiad **Mathew 28: 1-10; Marc 16: 1-8; Luc 24: 1-12; Ioan 20: 1-18**



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 28: 1-10; Marc 16: 1-8; Luc 24: 1-12; Ioan 20: 1-18	An illustration of the resurrection scene. An angel in white robes sits on a large yellow stone rolled away from the tomb entrance. The text 'JESUS IS ALIVE' is written in large blue letters across the bottom. The 'Free Bible Images' logo is in the top right corner. Below the illustration, the text 'Matthew 28:1-10', 'Mark 16:1-8', 'Luke 24:1-12', and 'John 20:1-18' is listed, along with the website 'www.freebibleimages.org'.	


- 1 Ar ôl i gorff Iesu gael ei roi yn y bedd, dwedodd Peilat, "Cymerwch filwyr ac ewch i wneud y bedd mor ddiogel ag y gallwch chi." Felly dyma nhw'n mynd a gosod sêl ar y garreg oedd dros geg y bedd, a rhoi milwyr ar ddyletswydd i'w gwarchod.



- 2 Yn hwyr ar y nos Sadwrn, pan oedd y Saboth drosodd, aeth Mair Magdalen, Salome a Mair mam Iago i brynu perllysiau ar gyfer eneinio corff Iesu. Yna'n gynnar iawn ar y bore Sul, pan oedd hi'n gwawrio, dyma nhw'n mynd at y bedd. Roedden nhw wedi bod yn trafod ar eu ffordd yno pwy oedd yn mynd i rollo'r garreg oddi ar geg y bedd iddyn nhw.



-
- 3 Yn sydyn roedd daeargryn mawr. Dyma angel yr Arglwydd yn dod i lawr o'r nefoedd a rholio'r garreg oddi ar geg y bedd ac eistedd arni. Roedd wyneb yr angel yn disgleirio'n llachar fel mellten, a'i ddillad yn wyn fel eira. Roedd y milwyr yn crynu gan ofn a dyma nhw'n llewygu.




-
- 4 Wrth gamu i mewn i'r bedd, dyma'r gwragedd yn dychryn, achos roedd dyn ifanc yn gwisgo mantell wen yn eistedd yno ar yr ochr dde.



-
- 5 Yna dyma'r angel yn dweud wrth y gwragedd, "Peidiwch bod ag ofn. Dw i'n gwybod eich bod chi'n edrych am Iesu, yr un gafodd ei groeshoelio. Dydy e ddim yma; mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dyna'n union beth ddwedodd fyddai'n digwydd. Dewch yma i weld lle bu'n gorwedd."



-
- 6 "Yna ewch ar frys a dweud hyn wrth ei ddisgyblion: 'Mae Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, ac mae'n mynd i Galilea o'ch blaen chi. Cewch ei weld yno.' Edrychwch, fi sydd wedi dweud wrthoch chi."



-
- 7 Felly dyma'r gwragedd yn rhedeg ar frys o'r bedd i ddweud wrth y disgyblion. Roedden nhw wedi dychryn, ac eto roedden nhw'n teimlo rhyw wefr.



-
- 8 Yna'n sydyn dyma Iesu'n eu cyfarfod nhw. "Helo," meddai. Dyma nhw'n rhedeg ato ac yn gafael yn ei draed a'i addoli. "Peidiwch bod ag ofn," meddai Iesu wrthyn nhw, "Ewch i ddweud wrth fy mrodyr i am fynd i Galilea; byddan nhw'n cael fy ngweld i yno."



-
- 9 Dwedodd y gwragedd yr hanes wrth yr apostolion, ond doedd yr apostolion ddim yn eu credu nhw — roedden nhw'n meddwl fod y stori yn nonsens llwyr. Ond dyma Pedr ac Ioan yn rhedeg at y bedd i edrych.



-
- 10 Rhedodd y ddau gyda'i gilydd, ond dyma Ioan yn rhedeg yn gynt na Pedr a chyrraedd yno o'i flaen. Plygodd i edrych i mewn i'r bedd, a gweld y stribedi o liain yn gorwedd yno, ond aeth e ddim i mewn. Yna dyma Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r bedd.



-
- 11 Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd yno. Gwelodd hefyd y cadach oedd wedi bod am wyneb Iesu, ond roedd hwnnw wedi ei blygu a'i osod o'r neilltu ar wahân i'r stribedi lliain. Yna, yn y diwedd, dyma Ioan yn mynd i mewn hefyd. Pan welodd e'r cwbl, credodd. (Doedden nhw ddim eto wedi deall fod yr ysgrifau sanctaidd yn dweud fod rhaid i Iesu ddod yn ôl yn fyw.)



12 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed
by FreeBibleImages for free download under the terms of the
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
